# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 30 Tachwedd 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, Iwan Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan.
Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Aeron Pughe, a Huw M Williams.

Gofynodd y Cadeirydd i Cyng Iwan Pughe Jones ymestyn dymuniadau da y Cyngor i'w dad, y cyn Cynghorydd John Pughe Jones, sydd wedi bod yn derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

**17.58. Cofnodion cyfarfod 28 Medi 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.59. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Darllenodd y Clerc e-bost newydd gan Mr Steve Coventry, cwmni Amey, yn rhoi diweddariad ar y prosiect. Cadarnhawyd bod y gwaith wedi cychwyn yng Nghwmlline.
17.49.1. Problemau gyda llwybr yr Eglwys yn Darowen. Datganiwyd diddordeb gan **Cyng Paul Hughes** a gadawodd yr ystafell. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn dim ond un cynnig am y gwaith sydd angen ar y llwybr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gohirio unrhyw penderfyniad tan y cyfarfod nesaf i gweld os oes cynnig arall am y gwaith yn dod i fewn. Dychwelodd **Cyng Paul Hughes** i'r ystafell.
17.50.2. Goleuadau traffig ar y bont dros y rheilffordd yn Comins Coch. Cadarnhawyd fod y goleuadau wedi cael ei symyd a bod y gwaith ar y bont wedi cychwyn.
17.57.7. Phroblemau gyda sefyllfa gyda audit y Cyngor. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa yn dilyn y cyfarfod gyda Mr Derek Evans o'r "Wales Audit Office". Mae'n debyg mi fydd yna adroddiad ar y sefyllfa ac mi fydd rhaid i'r Cyngor trafod yr adroddiad mewn cyfarfod cyhoeddus. Eglurodd Cyng Aled Griffiths ei fod yn siomedig iawn gyda'r sefyllfa.

**17.60. Cynllunio.**
60.1. P/2017/1123. Cais i newid defnydd un adeilad a codi estyniad yn Cockshed, Llanwrin, Machynlleth. Datganiwyd diddordeb gan **Cyng Gwenfair Rhys-Davies** a gadawodd yr ystafell. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi'r cais. Dychwelodd **Cyng Gwenfair Rhys-Davies** i'r ystafell.
60.2. P/2017/1142. Cais i codi ty a modurdy ar tir ger Troedybryn, Abercegir, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cynnig dim barn ar y cais yma.
60.3. P/2017/1023. Cais i codi ty newydd ar rhif 2 Coed-yr-Onnen, Glantwymyn, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.

**17.61. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
61.1. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa gyda newid y mandate gyda'r banc. Cytunwyd gohirio unrhyw taliadau nes bod y mandate newydd wedi cael ei dderbyn.
61.2. Cadarnhaodd y Clerc fod yna Cyfanswm o £18,447-33 yn y banc a fod dim sieciau heb cael eu cyflwyno ar hyn o bryd.

**17.62. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
62.1. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan ei fod wedi cwrdd gyda Cyng Liam Fitzpatrick, Cyngor Sir Powys, i thrafod nifer o problemau yn yr ardal yn cynnwys y sefyllfa gyda'r coed yng Cghwmlline.

62.2. Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies fod y Fforwm Cleifion wedi cael cyflwyniad ar Cynllyn NYTH, sydd yn helpu cadw pobl mewn angen yn gynnes yn y gaeaf. Cafwyd hefyd diweddariad ar y sefyllfa gyda'r Canolfanau Iechyd yng Nglantwymyn a Fachynlleth.
62.3. Hyfforddiant Un Llais Cymru. Rhoddodd Cyng Sion Ifans diweddariad yn dilyn ei hyfforddiant diweddar gyda Un Llais Cymru.

**17.63. Gohebiaeth.**
63.1. Llythr gan Mr Andrew Robertson ar rhan Eglwys Tydecho Sant, Cemaes, yn diolch am y rhodd tuag at torri'r gwair yn y fynwent.
63.2. Llythr gan Mr Edward Breese ar rhan Pwyllgor Mynwent Capel M.C. Cemaes yn diolch am y rhodd tuag at torri'r gwair yn y fynwent.
63.3. Llythr gan Cyngor Sir Powys yn egluro y costau i Gyngor Cymuned Glantwymyn o gynnal yr etholiad ar 4 Mai 2017. Cyfanswm y costau ydy £972-36. Mi fydd y taliad yma yn dod allan o'r praesept ym Mis Rhagfyr.
63.4. E-bost gan Mr Lee Evans, Cyngor Sir Powys, gyda manylion newidiadau i'r gwasanaeth casglu sbwriel yn y Sir.
63.5. E-bost gan Mr Jared Gethin, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda diweddariad ar y Prosiect Gwaith Coed a Sefydlogi Llechwedd Bont Evans.
63.6. E-bost gan Dr Del Morgan, Un Llais Cymru, ynglyn a ddatblygiadau gyda Cynghorau Lleol yn gweithio mewn clystrau.
63.7. E-bost gan Mr Owain Williams, Llywodraeth Cymru, ynglyn ag ymgynghoriad newydd ar Meysydd Tref a Phentref.
63.8. E-bost gan Cyng Mike Cuddy, Um Llais Cymru, ynglyn a cynllun Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2018.
63.9. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn a cyfle i thrafod yr Adolygiad o'r Sector Cyngor Cymuned a Thref.
63.10. E-bost gan CPRW ynglyn cystadleuaeth Pentref Mwyaf Dymunol Sir Drefaldwyn 2018.
63.11. E-bost gan Mr Steve Fuller, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cais i gau'r ffordd ym Melin-Byrhedyn yn ystod Mis Ionawr a Mis Chwefror 2018.
63.12. E-bost gan Mr Steve Fuller, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cais i gau'r ffordd C2018 yn Abercegir yn ystod Mis Chwefror 2018.
63.13. E-bost gan Ms Sarah Astley, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Powys, ynglyn ag ymgynghoriad ar Gynlluniau ar gyfer Ysgolion Powys.
63.14. E-bost gan Mrs Ann Owen, Cyngor Sir Powys, gyda manylion a ffurflenni gofyn am y praesept i'r blwyddyn ariannol 2018/19.
63.15. E-bost gan Ms Melissa Davies, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, ynglyn ag ymgynghoriad ar Praesept yr Heddlu yn 2018/19.
63.16. E-bost gan Mr Martin Bull, Llywodraeth Cymru, gyda cadarnhad o'r Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
63.17. E-bost gan Ms Jo Lancey, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cais i arwyddion cyflymder 20mya/40mya ar hyd y ffordd fawr ger Ysgol Glantwymyn. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi'r cais i codi'r arwyddion newydd.
63.18. E-byst gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Hydref a Mis Tachwedd 2017.

**17.64. Unrhyw fater arall.**
64.1. Problemau gyda cerbyd yng Nghwmlline. Eglurodd Cyng Deryck Lewis fod problem wedi datblygu gyda cerbyd yn parcio ger y neuadd yng Nghwmlline. Cytunwyd cadw llygad ar y sefyllfa.
64.2. Problemau gyda diffyg halen ar y cefn ffyrdd o gwmpas Darowen. Eglurodd Cyng Iwan Pughe Jones fod angen halen newydd ar pob pentwr halen wrth ochr y ffyrdd sydd yn arwain i Ddarowen o pob cyfeiriad. Ychwanegodd Cyng Gareth Owen fod angen halen hefyd ar gwaelod Cwm Ffrydlan. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.

64.3. Problemau gyda cyflwr ffordd Llanwrin. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod angen brwsio'r ffordd o Glantwymyn trwy Llanwrin i Ffridd Gate. Cytunwyd codi'r sefyllfa gyda swyddogion Cyngor Sir Powys gan phwysleisio defnydd y ffordd fel ffordd osgoi.

64.4. Problemau gyda'r ffordd fawr o Bont ar Ddyfi i fewn i dref Machynlleth yn cau. Eglurodd Cyng Gareth Owen ei fod yn teimlo bod yr awdurdodau yn rhy barod i cau'r priffordd o dan y rheilffordd ac yn rhy araf yn ail agor y ffordd ar ol llifogydd. Cytunwyd ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd am y sefyllfa.

64.5. Golau stryd ddim yn gweithio yng Nghwmlline. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod un golau dal dim yn gweithio yng Nghwmlline. Cytunwyd mi fydd Cyng Derek Lewis yn pasio rhif y golau ymlaen i'r Clerc ac mi fydd yntau yn dod a'r golau at sylw swyddogion y Cyngor Sir.

64.6. Perygl ar y troiad i fewn i'r ysgol yng Nglantwymyn. Eglurodd Cyng Dafydd Evans fod yna problem ger y troiad i fewn i'r ysgol yng Nglantwymyn oherwydd diffyg llinellau gwyn i ddangos pwy sydd a blaenoriaeth. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 21 Rhagfyr 2017.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 25 Ionawr 2017.**